# RHYBUDD O
# GYFARFOD ARBENNIG

*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E-bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2026 |
| **Amser:** | Ar ddiwedd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod***
***15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,*
*Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,*
*Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,*
*Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones,*
*Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N

| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** | |
| 2. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 3. | **Cyllid Prosiectau Cynllun Adnoddau Integredig – Y Goeden Iawn yn y Lle Iawn a Ffermio Adfywiol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed & Amaeth (Copi yma) | 3 - 5 |

**Eitem Rhif 3**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Cyllid Prosiectau Cynllun Adnoddau Integredig - Y Goeden Iawn yn y Lle Iawn a Ffermio Adfywiol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth |
| **PWRPAS** | Cadarnhau cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS) |

## 1. CEFNDIR

1.1. Mae dau brosiect **Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig** (INRS), sef Y Goeden Iawn yn y Lle Iawn a Ffermio Adfywiol, wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'u derbyn gan yr Awdurdod. Adroddwyd yn flaenorol byddai'r prosiectau yn gost niwtral i'r Awdurdod. Daeth i'r amlwg yn ddiweddarach bod graddfeydd Llywodraeth Cymru a'u cyfraniad at gostau Yswiriant Gwladol a phensiwn yn is na chyfraddau'r Awdurdod a hynny yn creu bwlch yn y gyllideb cyflogau.

1.2. Mae swydd ddisgrifiadau ar gyfer swyddogion y prosiectau wedi'u llunio a'u cymeradwyo gan Adnoddau Dynol a Llywodraeth Cymru.

## 2. GOBLYGIADAU:

2.1. Yn seiliedig ar wybodaeth bresennol ac ar y pwynt cyflog uchaf, bydd costau cyflogi fel a ganlyn:

2.2. Mae costau fesul awr yn cael ei nodi er mwyn gwneud cymhariaeth gywir ar ffigyrau'r uchafswm caiff ei dalu gan Lywodraeth Cymru.

2.3. Ar hyn o bryd, nid yw'n sicr beth fydd hyd cytundebau gwaith y swyddogion, ar wahân i'r Prentis, fydd ar gytundeb 12 mis ond disgwylir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf Felly, cyflwynir 2 opsiwn, sef 24 mis a 31 mis (er mwyn dangos yr opsiwn mwyaf costus). Ni fydd y cytundeb gwaith yn hwy na 31 mis.

| Costau i APCE | Incwm Grant Llywodraeth Cymru | Bwlch Ariannol / Gwahaniaeth Cost yr awr | Bwlch Ariannol / Gwahaniaeth Cost ar gytundeb 12 mis | Bwlch Ariannol / Gwahaniaeth Cost ar gytundeb 24 mis | Bwlch Ariannol / Gwahaniaeth Cost ar gytundeb 31 mis |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiect Y Goeden Iawn yn y Lle Iawn** | | | | | |
| Swyddog Cefnogi Gradd 4 - £19.26 yr awr (0.5 FTE) | £17.57 yr awr | £1.69 yr awr | N/A | £3,251.56 | £4,199.93 |
| Swyddog Prosiect Gradd 7 - £26.37 yr awr (1 FTE) | £20.57 yr awr | £5.80 yr awr | N/A | £22,318.40 | £28,827.93 |
| **Prosiect Ffermio Adfywiol** | | | | | |
| Swyddog Cefnogi Gradd 4 - £19.26 yr awr (0.5 FTE) | £17.57 yr awr | £1.69 yr awr | N/A | £3,251.56 | £4,199.93 |
| Swyddog Prosiect Gradd 7 - £26.37 yr awr (0.5FTE) | £20.57 yr awr | £5.80 yr awr | N/A | £10,385.01 | £13,413.97 |
| Rheolwr Prosiect Gradd 8 - £30.09 yr awr (1 FTE) | £20.57 yr awr | £9.52 yr awr | N/A | £36,432.96 | £47,317.57 |
| Prentis - £16.52 yr awr (1 FTE 12 mis) | £14.83 yr awr | £1.69 yr awr | £3,251.56 | N/A | N/A |
| **Cyfanswm y Bwlch Ariannol / Gwahaniaeth Cost** | | | **£3,251.56** | **£75,739.49 + Prentis 12 mis @ £3,251.56**<br>**= £79,091.05** | **+ Prentis 12 mis @ £3,251.56**<br>**= £101,210.89** |

2.4. Mae gan y gwasanaeth Cadwraeth Coed ac Amaeth Gronfa Prosiectau wrth gefn, gyda chyllideb iach ac mae modd i'r gronfa hon gwrdd â'r costau yn llawn.

2.5. O ystyried maint y cyfraniad INRS, mae'r prosiectau yn parhau i gynnig gwerth am arian da, er mwyn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, Cynllun Eryri, targedau 30x30 ac adferiad natur .

2.6. Mae'r profiad yma wedi dysgu gwersi i swyddogion a byddwn yn sicrhau na fydd yr anawsterau hyn yn cael eu hailadrodd yn y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD:**

Parhau â'r prosiectau gan fod y prosiectau yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol yr Awdurdod ac yn cynnig gwerth am arian da drwy ddenu buddsoddiad allanol o £1.6m.